

Goleuni'r Gogledd



Llun: Keith O'Brien

Bu ond y dim i Keith O'Brien fethu goleuadau'r Awrora tair wythnos yn ol. "Lwc mul" meddai iddo' gael llun ohonyn nhw... "o'n i'n tynnu lluniau Orïon ac ati i gyfeiriad y de pan bu i mi droi rownd a gweld yr olygfa ffantastig unwaith mewn oes yma! Petawn i wedi cario ymlaen i dynnu lluniau fel o'n i 'swn i wedi methu'r cyfan a hynny heb wybod fod o'n digwydd!"

Nid ydym yn brin o gyfeiriadau at Y Goleuni yng Nghymru. Yn 1741 daw un o gofnodion cyntaf yn y Tywyddiadur (gwglwch a chwi a gewch) o'r awrora gan William Bulkeley, Llanfechell, Môn. Cawn ddisgrifiad ganddo sydd rhywsut yn crisialu'r symudiad arallfydol a welodd ar y 21ain o Fedi 1741: *This night the whole Hemisphere was covered with what's called an Aurora Borealis, darting about & interweaving Pillars of light of severall colours thro the clouds from 8 till 10 when I went to bed, which made it lighter than any Moon Shiny night.* Mae'r adroddiad ffeithiol ond byw iawn gan Bulkeley i'w gyferbynnu i gofnodion mewn baledi o'r un cyfnod (1769) megis Tomos Edwards, enwocach fel Twm o'r Nant (mae'n son am gomeda a goleuni'r gogledd gyda'i gilydd yn yr ail linell). Yr awrora cafodd y bai am dwf Pabyddiaeth yn y deyrnas (blwch ar y dde)

Neis trei Twm. Nid yw'n glir, meddai Catherine Charnel White (heb ei gyhoeddi: *Literary Responses to extreme Weather in eighteenth Wales*) a yw'r cyfryw faledi yn cyfeirio at brofiadau a gafwyd yng Nghymru ynteu enghreifftiau wedi eu haddasu o Loegr.

Beth yw gwaith, yr arwyddion maith,
Sy'n lanwaith y leni?

Y Seren gynffon, ar goleuni;
Ond rhybŷdd hynod o'n trueni.
Gwelwn rybŷdd coeliwn rŷwbeth,
O air Duw'n dirion cyn bradwri'eth,
Dia y dâwo'i lidiog lâw, i's awŷr frâw,
'Syw'eth;
Fel pobl Ninif gwnawn wahaniaeth,
Mae Duw'n wir hael arbedwr helaeth.

THO. EDWARDS a'i cant 1770

Tynnodd Keith ei lun o aurora 27 Chwefror eleni am 8:15pm ac mi barhaodd am tua 6 munud cyn iddo'n raddol ddiflanu wrth iddi gymylu drosodd. "Hefyd" meddai, "oedd 'na ryw ychdig o symudiad ar dop y rhan coch, debyg i ddangosydd graffeg ar beiriant sain yn dangos y cerddoriaeth yn mynd yn uwch ac yn is".

Ewch i'r Tywyddiadur ar wefan Llên Natur am wledd o [gofnodion eraill](#) hŷn a mwy diweddar o Gymru.

Daw eto haul ar fryn....

Pigion o ddwy flynedd olaf dyddiadur William Bulkeley, Llanfechell.

3 Ebrill 1759: *Delivered – Catherine Broadhead 2s. for buying trenchers in the fair at Llanerchymedd tomorrow*

Y trencher gwreiddiol oedd darn o fara i'w ddefnyddio fel plât (o'r Ffrangeg *tranche* = sleisen). Tybed ai dyma a olygodd WB ynteu a oedd y gair wedi newid ei ystyr i blat seramic erbyn hynny?

24 Mai 1759: *...it was proposed that John Jones of hav[e sw]n y Micht & Owen David of Minfordd (two Cottagers who had built, or rather who succeeding in such Cottages that were formerly built) should annually provide Marsh Rushes or Morasc to be laid on the floor of the Chancell ^6 times in the year^ in the Severall Seats & benches therein & on the Windows, & also in the Seats in the body of the Church & in all the Windows within such Seats – and that Hugh Owen of Nant yr Eirin Cooper & Nan of Tŷ'n y Wern should yearly six times in the year sweep & make clean the rest of the body of the Church & provide the Comon green Rushes to lay on the floor of the same thorout, every time it is so swept*

Defnyddiwyd morhesg (*Ammophilla arenaria*) i sawl diben yn y cyfnod hwn. Nid yw moresg wrth gwrs yn tyfu mewn cors ("marsh"), felly ai morhesg go iawn oedd gan WB dan sylw neu rhyw frwyn neu hesgen arall? Defnyddiwyd hefyd brwyn cyffredin (*Juncus effusus* neu *J. glomeratus?*). Gwahaniaethodd WB rhwng yr hyn ddylid ei roi ar lawr y Gangell a'r hyn a ddisgwylid yng ngweddill yr eglwys.

12 Ionawr 1760: *The Wind E. and exceeding cold & freezing all this day also my people all this week were carting the Ashes to Cae Ty'n y llŵyn*

Certio lludw beth tybed? Mae yna 41 cofnod yn nyddiadur WB yn cyfeirio at lo ("coal") a 49 cofnod at fawn ("turf"). Yr unig gyfeiriad at losgi tannwydd yw "...by which I got a great deal of usefull Timber, besides brush wood for burning a great deal more" (7 Hydref 1749).

16 Chwefror 1760: *My people this week employed in cutting Gors, some for the use of the house & the rest to fence the Pinfold in Coydan which is in Cadlas y Drŷm*

Dau reswm yma pam y torrai eithin - tannwydd a ffensio. Y defnydd yn y ty mae'n debyg oedd i gynnu tân, sef poethfel.

28 Medi 1760: *The Wind W. blowing very fresh and cold and raining hard all the morning: about noon it left off and the Sun appeared*

Dyma gofnod olaf WB a nodyn o obaith ("daw eto haul ar fryn")

Mae holl sylwadau "amgylcheddol" William Bulkeley o'i ddyddiaduron bellach ar lein yn Y Tywyddiadur ar ôl dwy flynedd o drawsgrifio manwl a phroffesiynol gan Gwmni SueProof. Ym mis Gottfennaf 2014 cyhoeddwyd y dyddiadur yn ei gyfanrwydd (gan gynnwys cofnodion WB am ei waith fel ynad heddwch) ar wefan Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor.

Wennoliaid cynnar



Llun: Alun Williams

Cannoedd ohonynt yn hedfan yn isel yn chwilio am fwyd, gwarchodfa RSPB, Conwy. Mai 15

Llun: Alun Williams

Ond yn y flwyddyn 1916 clywodd Harry Thomas o Landudno am wrennol ddu uwchben traeth Conwy ar y 24 Ebrill (very early for the swift meddai yn ei ddyddiadur). Ond nid Harry oedd yr unig un i farnu bod y wrennol ddu yn cyrraedd yn gynnar yn 1916. Dyma ddywedwyd yn y cylchgrawn *British Birds* y flwyddyn honno:

SWIFTS (Apus a. apus) have been reported from many quarters as having arrived this year at earlier dates than usual. Mr. A. Astley informs us that he saw a pair on April 23rd at Lake Windermere, and Mr. H. E. Forrest tells us that one was seen at Churchstoke, Shropshire, on April 22nd. In southern England, Swifts were seen by many observers on April 22nd and 23rd, and we note two still earlier dates, viz., Exbridge, April 17th, and Christchurch, April 20th, reported in the Field

Am y cyntaf i weld y wrennol ddu eleni.

Titw'r pensal llechan

Dyma'r sylw a ddaeth i'r fei yn nyddiadur Harry Thomas ar y 18 Mawrth 1916:


....A Tomtit in the garden with his somewhat harsh metallic note (slate pencil)....

I Harry roedd galwad y titw tomos yn ymdebygu i swm crafu'r pensil llechen oedd yn gyfarwydd iddo yn yr ysgol yr oedd yn dysgu ynddo yn Llandudno (cymhariaeth eithaf dieithr i ni heddiw). Dyma gân a galwadau'r titw – gewch chi benderfynnu [pa alwad](#) roedd gan Harry dan sylw.

Cafodd Harry Thomas ei urddo yn Eisteddfod Bangor yn 1916. Ysgrifennodd ei ddyddadur (1914-16) yn gyfangwbl yn y Saesneg. Roedd yn naturiaethwr brwd a sylwgar.

Y storm fawr yn datgelu trysorau

Olion coedwig hynafol ar y traeth rhwng Y Borth ag Ynyslas. Wedi dod i'r golwg ar ol y storm fawr - tua 5000 o flynyddoedd oed, medda nhw. Mawrth 3ydd 2014.



Llun a stori: Harri Lloyd

Effeithiau'r stormydd... ardal Criccieth



Llun: Gwilym Arthur Roberts

Corff morwennol bigddu a'r Tyn Traeth 27 Chwefror 2014.

Un o'r myrdd o gyrff gafodd eu cyfri gan Gwilym ar ddau draeth yn Eifionnydd ddiwedd Chwefror sydd yn dangos y difrod cyffredinol – pigyn y rhewfryn!

Cyfrifon o gyrff adar a'r draeth

Criccieth 26/2/2014 gan Gwilym Arthur:

Llurs 106, Gwylog 28, Mulfran Werdd 5, Pal 1, Aderyn drycin y graig 3, Gwylan Goesddu 4, Gwylan Benddu 1, Jac y do 1

Cyfrifon o gyrff adar a'r draeth bychan Ty'n traeth Llanystymdwy 27/2/2014

Llurs 46, Gwylog 17, Mulfran Werdd 3, Pal 1, Aderyn drycin y graig 2, Gwylan Goesddu 9, Gwylan Benddu 1, Morwennol Bigddu 1 (llun)

<http://www.itv.com/news/wales/story/2014-02-26/seabird-deaths-hit-the-welsh-coast/> Roedd y forwennol ymhell allan o'i dymor Gol.

Gwilym Arthur Roberts

Llyncdwll yn Nhrefdraeth, Môn?




Could this mysterious hollow be a sink hole forming in Trefdraeth? Might it be an old mine shaft opening? Location: SH 41648 70388. No shafts are recorded at the top of the hill, many are recorded on Malltraeth Marsh.

Llun a hanes: Steve Roddick

Mae Steve yn gweithio fel arolygwr maes i'r Arolwg Ordnans ac yn adnabod y tir yn dda iawn.

Penwisgoedd gwylannod penddu



Llun: Harry Thomas >> Duncan Brown

Roedd y dyddiadurwr Harry Thomas o Nant y Gamar, Llandudno, yn cymryd diddordeb mawr yn y newidiadau tymhorol o'i gwmpas. Dyma ddarlun a wnaeth ar dudalen 11 Chwefror 1915 o benwisgoedd tymhorol y wylan benddu. Nododd Harry fel hyn ar y 15 Ionawr 1915:

Showery with the vigorous West wind. Baro. rises to 29.52 (on the 13th) falls to 28.75.11 p.m. Returning from Queens hotel at noon see 3 blackhead gulls already assuming their black faces.... War news: heavy floods on the Aisne...

Cen mynwent Llanbedrog



Llun: Duncan Brown

Tynnwyd y llun ar y chwith yn 2007 i ddangos dosbarthiad y cen mewn perthynas a'r llythrennau ([wele yma yn yr Oriol](#)). Tynnwyd y llun ar y dde ar y 27 Chwefror 2014. Faint o newid fu yn nosbarthiad y cen ar y garreg mewn 7 mlynedd? Dim llawer dybiwn. Mae yna newid lliw yn sicr (cen yn aeddfedu, marw?) o gwmpas y llythrennau OF yn BODY OF, ac o gwmpas y VE tua gwaelod y ffram. Mae cen yn ddarhebol am arafwch eu twf. Tybed pa rywogaethau o gen sydd yn y llun?

Nefi Blw!

Dyma chi lun diddorol gan Sally Hall o Landeilio. Welais i erioed ffasiwn beth o'r blaen. Iolo Williams

Nefi blw! Welais i erioed y fath beth. Rhyfeddol ynte?

Bethan Wyn Jones



Meddai Iolo: "Dim effaith barrug ydi hwn. Dwi wedi gweld effaith rhew ar griff yn aml a mae'n pydru'r penbyliaid bychan. Yn y llun yma, mae cyrff y penbyliaid yn ffurfio'n berffaith. Mae Sally yn cadw'r griff ar wahan er mwyn ei weld yn datblygu. Mae Peter Hill o Amphibian and Reptile Conservation yn dweud ei fod wedi gweld hyn unwaith o'r blaen, a llyffant albino hefyd.

Pry tarian y trimins 'Dolig

Dyma bry' tarian yr ogfaen *Acanthosoma haemorrhoidale* [http://en.wikipedia.org/wiki/Hawthorn_shield_bug]. Daeth i'r fei gyda'r nos y 19 Chwefror yn Iolfa Gwelfor, Waunfawr, gan ddychryn y plant! O ble daeth o tybed? Do, bu'n aeaf ddigon tyner.... ond mae yna esboniad arall. Dyma ddywedodd yr arbenigwr John Bratton am y llun: Yes, that looks OK for *Acanthosoma*. They overwinter as adults in such places as pine cones so it isn't unusual for them to turn up in houses, out of Christmas decorations for example.

Un o'r pryfed tarian cyffredin yw hwn. Ei brif fwyd yw crafol y moch neu'r ogfaen, ffrwyth y ddraenen wen Mae'n gyfyngedig i dde Prydain - nid tan 1882 y cyrrhaeddodd Birmingham ac mae'n dal i ymledu tua'r gogledd.



Llun: Duncan Brown

Achubiaeth Caerwynt

Sylw o dde Lloegr, a sut yr arbedwyd tref Caerwynt rhag y llif trwy atal y dŵr, nid ei ryddhau:

"Winchester was saved from badly flooding this time by the radical idea of Asad Abbas, a technical advisor to the Environment Agency, who had served in the Pakistani Army for fifteen years where it is prone to flooding. More than 500 one ton bags full of gravel were dumped into the river Itchen at four points north of the city. And it has done the trick! Only about six properties have had to be evacuated, although 100 homes were at risk. So most of the flood water spread over fields, slowing the flow, allowing time for water to drain away from the city. Because we haven't had any hard frosts, everything is beginning to flower! I even saw a Camellia the other side of the cathedral yesterday, in full bloom".

Deirdre Wood

Crëyr dan lyffethair

Nid oeddwn am roi llun arall o grëyr bach ar y wefan, cyn i mi sylwi bod pig yr aderyn wedi torri, tybed beth fydd tynged yr aderyn? A fydd yn gallu bwydo yn effeithiol?



Llun a stori:
Alun Williams

Drannoeth y storm.... 1915

Llandudno 14 Tach. 1915: ...In the afternoon Dolly, Freda, George & I go for a walk on the shore to see what the storm has left [deuddydd ynghynt]..... numbers of Father lashers, 2 *Eledone octopodia*, large numbers of anemone, Starfishes - *Urusta rubens*, *Cribella rosea* & *Solaster papposa* (the rays of the *Solaster* differ in number in different individuals, 12, 13, 14 & one with 15.) *Spatangus purpureus* & *Amphidotus cordatus*. Also numbers of a species of *Sipunculoidea*.



Llun (a stori gwaelod y dudalen): Wil Williams

Dyddiadur Harry Thomas, Nantygamar, Llandudno (LIGC/Archifdy Conwy)

Cewch weld e-gopi o'r llawysgrig gwreiddiol yma: <http://cymru1914.org/en/view/manuscripts/4283716/46>

Dyma ymateb Sion Roberts, arbenigwr creaduriaid y môr

Father lashers = *Myxocephalus scorpius*...pysgodyn, math o sculpin..."His singular name appears to have been given to him on account of his pugnacity and the villainous expression of his countenance, which are supposed to belong to a creature who would not hesitate to give his own parent a thrashing." Short-spined sea scorpion yw'r enw fwy cyffredin dyddiau yma. Llyffant mor, llycan neu penbwl yn Gymraeg. Nid wyf wedi gweld un o'r rhain... efallai ei fod wedi gwneud camgymeriad? *Taurulus bubalis*, llun yma, y long spined sea scorpion sydd yn fwy cyffredin?

Am weddill trysorfa Harry, dyma farn Sion:

Eledone octopodia = *Eledone cirrhosa* = octopws crych

Urusta rubens = *Asterias rubens* = seren fôr gyffredin

Cribella rosea, ddim yn hollol siwr ond... = *Henricia sanguinolenta*, scarlet sea-star, seren waetgoch.

Solaster papposa = *Crossaster papposus*, sunstar, heulseren.

Spatangus purpureus = *Spatangus purpureus*, purple heart urchin, gwelchyn porffor... erioed wedi gweld un, ond Llandudno ydi'r unig le i weld un yn Ngogledd Cymru ynol gwefan MARLIN.

Amphidotus cordatus (Pennant 1777) = *Echinocardium cordatum*, heart urchin, gwelchyn, taten fôr.

Sipunculoidea = *Sipuncula*... [Llun uchod] anifeiliaid tebyg i lyngyr ond yn uwch i fyny'r goeden mewn pheilwm eu hunain. [Peanut worm yn Saesneg.... Llynghyren cneuen fwnci?). Maent yn byw yn y tywod. Fe gafodd rhai miloedd o rhain eu tiriio yn Dinas Dinlle ar ôl y storm dydd lau dwythaf.... dyma lun arall ohonynt.... <http://www.flickr.com/photos/gwylan/12681799744/>

Sion Roberts

Gwelodd Wil Williams fflyd o lyngyr cnau mwnci, ar ôl stormydd y Calan, ym Mhorth Cwyfan, Môn (3 Ionawr 2014). Roedd nifer o rhywbeth tebyg hefyd wedi eu gwasgu dan draed cerddwyr ar hyd palment Doc Caernarfon ddiwedd Chwefror.

Cysgod yr enfys... ynteu lojwr diog?

Y mae genny lojwr yn y stafell wely ers rhyw dri mis neu fwy, sef 'cysgod yr enfys', fel yr oedd yn cael ei alw gan rai – small tortoiseshell butterfly. Y mae'n cysgu ar y nenfwd [yng nghartref Steffan yn Stiniog]. Tybed pa bryd y gwnaiff o ystwyrio?



Llun a stori: Steffan ab Owain

Cliciwch yma* i weld y trilliw bach yn ei lawn ogoniant.

Dyma ateb Steffan i'w gwestiwn ei hun: "Gadawodd y lojwr ei gysgole rywdro brynhawn dydd lau [13 Mawrth] heb ddiolch am ei lety na dweud ffarwel wrthyml!"

Steffan ab Owain

Braf ydi cael cofnod o'r gloyn hwn yn deffro, nid yn gymaint o'i weld yn yr ardd ar ôl iddo ddeffro, ond wrth iddo ddeffro ac ymadael â'i gysgole. Roedd y gwasgedd uchel a'r tywydd braf wedi cyrraedd erbyn y 13 Mawrth ond roedd gwell tywydd i ddeffro gloyn byw yn fwy i'r dwyrain. Dyma'r cofnod twydd agosaf i Blaenau Ffestinog diwrnod yr ystwyro, sef Golan, Garn Dolbenmaen gan Tom Jones: "Wedi rhewi ychydig bora bach fel roedd hi yn dechrau dyddio. Mwy sydyn fe ddaeth niwl i mewn ac yn drwchys iawn [Wele lun y niwl hwn yn Nhrefnant gan Alun Williams ar yr union ddiwrnod]. Methu gweld llawer mwy na hyd y car wrth fynd i Port am 8am. Dod adref yn ol 8.45am roedd y niwl wedi codi o hanner milltir uwchlaw Penmorfa ac yn awyr las a haulog braf. Creithio [gair Pen Llŷn am losgi. Gol.] garw ar graig Garn. Brigad dân yno pawns a mwg tros pobman i'r gorllewin o'r tan yn drwchys iawn. Niwl yn ei ôl eto heno"